www.food.gov.uk

www.eatwell.gov.uk

www.salt.gov.uk

Clicia ar 'Cymraeg'

FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

At: Bawb sydd â diddordeb

20 Awst 2009

Annwyl Gyfaill

ADOLYGIAD YR UE O DDEDDFWRIAETH HYLENDID BWYD

Dyma lythyr i'ch hysbysu am y diweddaraf ynghylch adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o ddeddfwriaeth hylendid bwyd yr UE, ac i geisio eich sylwadau ar sut y gellir gweithredu ar rai o'r materion a godwyd gan y Comisiwn.

Cefndir

Mae cyfreithiau hylendid bwyd newydd yr UE wedi bod ar waith yn y DU ers mis Ionawr 2006. Maent fel a ganlyn:

- Rheoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwydydd;
- Rheoliad (CE) 853/2004 yn gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid; a
- Rheoliad (CE) 854/2004 yn gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir i bobl eu bwyta.

Gweithredwyd y rheoliadau yng Nghymru gan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd). Mae rheoliadau tebyg ar waith yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gan fod rheoliadau'r CE yn arloesol o ran eu perthynas â deddfwriaeth hylendid yr UE, mae'r pecyn hylendid bwyd yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad i Senedd a Chyngor Ewrop, yn adolygu'r profiad a gafwyd o weithredu ac, os yn briodol, i gynnwys cynigion perthnasol i gyd-fynd â'r adroddiad. Mae Rheoliad Rhif 852/2004 (CE) hefyd yn gofyn i'r Comisiwn ystyried a yw'n ddymunol ac yn ymarferol i ymestyn y gofynion HACCP i gynhyrchwyr sylfaenol.

INVESTOR IN PEOPLE

Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW
Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW
Ffôn / Tel: +44 (0)29 2067 8904 Ffacs / Fax: +44 (0)29 2067 8919
E-bost / E-mail: mike.pender@foodstandards.gsi.gov.uk

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

Datblygiadau diweddar

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn casglu tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, ac wedi cyhoeddi ei adroddiad yn ddiweddar. Gweler y ddolen i wefan y Comisiwn

http://ec.europa.eu/food/food/biosafety/hygienelegislation/docs/report_act_part1_en.pdf

Mae'r adroddiad yn gofnod ffeithiol o'r profiadau hyd yn hyn, fel yr adroddwyd i'r Comisiwn gan yr Aelod-wladwriaethau, cynrychiolwyr y diwydiant a defnyddwyr a Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn. Mae'r adroddiad yn datgan bod y profiad cyffredinol o ddefnyddio'r pecyn hylendid bwyd yn bositif, ac mae cefnogaeth eang dros yr egwyddorion a gyflwynir gan y Rheoliadau. Nid yw Aelod-wladwriaethau yn ystyried bod angen gweddnewid y pecyn yn sylweddol, o ystyried y profiad eithaf cyfyngedig o'i roi ar waith. Mae'r adroddiad yn casglu nad oes cefnogaeth ar gael i ymestyn gweithdrefnau sy'n seiliedig ar HACCP i gynhyrchu sylfaenol ar hyn o bryd. Mae'r Comisiwn wedi casglu na arweiniodd y ddeddfwriaeth newydd at unrhyw broblemau sylweddol ac yn gyffredinol, mae Aelod-wladwriaethau wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi rhai o'r trafferthion a gafwyd wrth roi'r pecyn ar waith, ond nid yw'n awgrymu unrhyw atebion manwl. Nid oes unrhyw gynigon deddfwriaethol i gyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Camau nesaf

Nid yw'n glir eto sut mae'r Comisiwn yn bwriadu bwrw ymlaen â'r adolygiad, neu p'un a yw'n bwriadu dwyn ymlaen unrhyw gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Sweden sydd â Llywyddiaeth yr UE ar hyn o bryd, ac mae wedi cynllunio tri Gweithgor yr hydref hwn i roi cyfle i Aelod-wladwriaethau drafod cynnwys adroddiad y Comisiwn. Bwriedir cynnal y cyntaf o'r Gweithgorau hyn ar 14 Medi.

Yn y cyfamser, rydym yn datblygu ein hymateb i'r adroddiad, a byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych i'w cynnig. Yn arbennig:

- A ydych chi'n cytuno â chynnwys a chasgliadau'r adroddiad?
- Ym mha ffordd y gellir mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd?
- A oes unrhyw faterion eraill yn codi o ganlyniad i weithredu'r ddeddfwriaeth hylendid nad ydynt yn cael eu crybwyll yn yr adroddiad?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech anfon eich sylwadau erbyn 10 Medi er mwyn gallu eu hystyried yng nghyfarfod cyntaf y Gweithgor ar 14 Medi. A fyddech cystal â'u hanfon at vicki.reilly@foodstandards.gsi.gov.uk

Yn gywir

Mike Pender
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru